# Strategaethau Asesu

## Dyfarniadau, Tystysgrifau a Diplomâu mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid (Lloegr) ac Ymarfer Gwaith Ieuenctid (Cymru)

## Lefel 2 a Lefel 3

**Fersiwn Terfynol Mawrth 2020**

## Cyflwyniad

Mae Pwyllgor Safonau Addysg a Hyfforddiant Cenedlaethol Asiantaeth Ieuenctid (ETS) Cymru ac ETS Lloegr yn gyfrifol am ddatblygu a chymeradwyo cymwysterau gwaith ieuenctid yng Nghymru a Lloegr yn seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn partneriaeth â Chyrff/Sefydliadau Dyfarnu (AO/Bs)[1]. Mae ETS Cymru ac ETS Lloegr wedi datblygu strategaeth asesu ar gyfer pob Sefydliad/Corff Dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau Ymarfer Gwaith Ieuenctid a Ymarfer Gwaith Ieuenctid (Cymru). Mae'r strategaeth asesu hon yn gosod disgwyliadau safonedig a chyson o ran sicrhau ansawdd ar gyfer AO/Bs.

Datblygwyd y strategaeth drwy ymgynghori â'r sector Ieuenctid a Chymunedol a thrwy gytundeb gyda AO/Bs. Mae'n darparu egwyddorion cyffredinol i'r AO/Bs eu defnyddio ac mae'n ymdrin â'r canlynol:

- sut y cyflawnir y gwaith o reoli ansawdd asesu yn allanol;
- diffiniad o'r agweddau hynny ar y safonau y mae'n rhaid eu hasesu bob amser drwy berfformiad yn y gweithle;
- i ba raddau y gellir defnyddio amodau gwaith ffug i asesu cymhwysedd;
- gofynion arbenigedd galwedigaethol ar gyfer hyfforddwyr ac aseswyr a'r rhai sy'n darparu'r gwaith o sicrhau ansawdd.

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â'r gofynion rheoleiddiol y mae'n rhaid i AO/Bs eu bodloni wrth ddyfarnu cymwysterau fel sy'n ofynnol gan Cymwysterau Cymru a Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual) yn Lloegr.

Mae ETS Cymru ac ETS Lloegr yn gweithio mewn partneriaeth â'r AO/Bs i fodloni eu disgwyliadau sicrhau ansawdd o ran cymwysterau Ymarfer Gwaith Ieuenctid Lefel 2 a 3. Mae rhagor o arweiniad a chymorth ar gael ar gais.

## 1. Unedau asesu sy'n seiliedig ar wybodaeth

Mae ETS Cymru ac ETS Lloegr, sefydliadau sy'n seiliedig ar y sector a AO/Bs wedi datblygu cymwysterau lefel 2 a lefel 3 Ymarfer Gwaith Ieuenctid ac Ymarfer Gwaith Ieuenctid (Cymru), sy'n seiliedig ar wybodaeth a dysgu cymhwysedd, sy'n galluogi gweithwyr ieuenctid i weithio'n effeithiol yn y sector. Mae'r cymwysterau'n seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid (2012).

Bydd dulliau asesu ar gyfer yr unedau sy'n seiliedig ar wybodaeth yn cael eu datblygu gan AO/Bs sy'n gymesur â lefel ac ehangder yr wybodaeth. Dylen nhw ddefnyddio adnoddau'n effeithiol a chael eu cyd-destunoli i arferion yn y gweithle.

Uned seiliedig ar wybodaeth yw Theori Gwaith Ieuenctid a rhaid ei hasesu yn unol â hynny.

## 2. Unedau asesu sy'n seiliedig ar gymhwysedd

Mae'r Strategaeth Asesu yn ei gwneud yn ofynnol i'r AO/Bs roi manylion i ETS Cymru ac ETS Lloegr ar bob un o'r pethau a restrir isod:

[1] Defnyddir yr acronym AO/Bs drwy gydol y ddogfen hon i ddisgrifio Sefydliadau Dyfarnu yn Lloegr a Chyrff Dyfarnu yng Nghymru

**Sicrhau ansawdd**

Pennir union broses ac amlder y gweithgareddau sicrhau ansawdd, gan gynnwys ymweliadau, yn dilyn asesiad risg gan y AO/Bs. Lle bo'n bosibl, dylai AO/Bs hyrwyddo i'r canolfannau y gwerth o gylchdroi'r unigolion hynny sy'n ymgymryd â sicrhau ansawdd yn fewnol i annog safoni, annibyniaeth asesu a rhannu arferion da.

**Asesu risg**

Dylai AO/Bs feddwl am asesiad risg yn eu canolfannau ynglŷn ag ansawdd a chysondeb asesu. Dylai AO/Bs sicrhau bod asesiad risg wedi cael ei gynnal ar gyfer pob canolfan gymeradwy a bod mecanweithiau priodol ar waith i sicrhau bod yr asesiad yn ddibynadwy.

**Cyfarfodydd sefydliadau/cyrff dyfarnu**

Bydd ETS Cymru ac ETS Lloegr yn trefnu cyfarfodydd blynyddol gyda AO/Bs, gyda'r nod o nodi a rhannu arferion da a hyrwyddo cysondeb. Gallai hyn gynnwys edrych ar y defnydd o efelychiadau a thystiolaeth o wybodaeth.

## 3. Asesu yn y gweithle

Mae'r Strategaeth Asesu yn seiliedig ar yr egwyddorion sy'n sail i asesu cymhwysedd:
- y gweithle yw'r prif leoliad asesu;
- bydd y brif ffynhonnell dystiolaeth yn dod o weithgareddau a chynnyrch sy'n digwydd yn naturiol yn y gweithle, a gynhyrchir o dan amodau gwaith arferol.

Dylai **tystiolaeth asesu**, lle bynnag y bo modd, fod yn gyfannol. Mae hyn yn golygu, yn hytrach na chasglu darnau unigol o dystiolaeth ar gyfer pob maen prawf asesu, y dylai dysgwyr gasglu tystiolaeth i ddangos gwybodaeth, dealltwriaeth a chymhwysedd:
- ar draws unedau sy'n cysylltu â'i gilydd yn naturiol;
- lle bo angen hunanwerthuso a gweithio gydag eraill, gellir casglu'r dystiolaeth yng ngofynion arferol y gweithle;
- bydd tystiolaeth perfformiad yn cael ei chasglu, lle bynnag y bo modd, o dystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol a gesglir yn y gweithle;
- rhaid i'r dystiolaeth fod yn ddilys, yn gyfredol, yn ddigonol, ac yn addas i'r diben.

Gellir casglu tystiolaeth am y gweithle yng nghyd-destun cyflogaeth amser llawn, rhan amser, achlysurol neu waith gwirfoddol. Gellir hefyd asesu mewn 'lleoliad gwaith' (sef, dysgwyr amser llawn a leolir mewn amgylchedd gwaith am gyfnod priodol o amser neu'n rheolaidd).

## 4. Defnyddio efelychiad

Dan amgylchiadau eithriadol, caniateir defnyddio efelychiad o dan nifer o amgylchiadau i asesu cymhwysedd:
- lle mae uned yn seiliedig yn bennaf ar wybodaeth sylfaenol ond y gellir ei chyd-destunoli i'r gweithle mewn cymhwyster cymhwysedd;
- lle gall diffyg cyfle i asesu yn y gweithle fod yn rhwystr i ddysgwr rhag cael neu ennill Dyfarniad, Tystysgrif neu Ddiploma mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid neu Ymarfer Gwaith Ieuenctid (Cymru);

- pan fydd addasiadau penodol ar gyfer dysgwr penodol yn atal mynediad i'r gweithle neu i weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i asesu'r dysgu;
- lle gall fod materion yn ymwneud â chyfrinachedd / diogelu pobl ifanc.

Pan ddefnyddir efelychiad, dylid ei ddylunio i sicrhau'r canlynol:
- mae'n ofynnol i'r dysgwr ddefnyddio deunyddiau a, lle bo'n berthnasol, dod o hyd i gyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio yn y gweithle;
- bod y ganolfan yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i'r dysgwr yn unol â'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu yn y gweithle yn y cyd-destun penodol;
- mae'r amgylchedd a'r sefyllfa ffisegol yn atgynhyrchu amgylchedd y gweithle lle defnyddir y sgiliau;
- mae pobl eraill y mae'r dysgwr yn rhyngweithio â nhw wrth gyflawni'r gweithgaredd a aseswyd yn ymddwyn fel y 'cymeriad' ar gyfer y sefyllfa dan sylw.

**Ni ellir asesu unedau ymarfer seiliedig ar waith drwy efelychiad.**

## 5. Arbenigedd galwedigaethol hyfforddwyr, aseswyr a'r rhai sy'n sicrhau ansawdd

Mae ETS Cymru ac ETS Lloegr yn cydnabod rôl hanfodol hyfforddwyr, aseswyr a'r rhai sy'n sicrhau ansawdd o ran cynnal cywirdeb cymwysterau galwedigaethol. Rhaid i AO/Bs a rhanddeiliaid eraill fod â hyder yng ngweithrediadau a phenderfyniadau hyfforddwyr, aseswyr a'r rhai sy'n sicrhau ansawdd.

Ar gyfer canolfannau presennol, cyfeiriwch hefyd at adran 7 y broses bontio.

Rhaid i **hyfforddwyr**:
- fod yn ymarferydd Gwaith Ieuenctid gyda Chymhwyster Proffesiynol JNC, ar ôl dilyn cymhwyster proffesiynol cydnabyddedig mewn gwaith ieuenctid fel y nodwyd gan NYA neu ETS Cymru[2] ar gyfer cyflwyno unedau *Theori Gwaith Ieuenctid ac Ymarfer seiliedig ar Waith*;
- ar gyfer cyflwyno unedau *Theori Gwaith Ieuenctid ac Ymarfer Seiliedig ar Waith*, rhaid cael o leiaf dair blynedd o brofiad ymarfer;
- ar gyfer unedau gorfodol eraill, rhaid meddu ar gymhwyster Lefel 3 o leiaf mewn Ymarfer Gwaith Ieuenctid (JNC) gyda thair blynedd o brofiad ymarfer o leiaf, gyda phrofiad gwaith maes yng nghyd-destun gwaith ieuenctid, gwaith cymunedol, addysg gymunedol neu'r sector cymunedol gwirfoddol a/neu brofiad perthnasol ehangach ar draws y sector ieuenctid a chymunedol mewn swyddogaeth a gydnabuwyd gan JNC/ETS yn ystod y 3 blynedd diwethaf;
- dylai'r unedau sy'n weddill gael eu cyflwyno gan ymarferwyr profiadol sydd ag arbenigedd yn y maes pwnc;
- bod â dealltwriaeth gadarn o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid;
- bod â dealltwriaeth gadarn o'r gofynion ar gyfer asesu o fewn Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau(Ofqual)/Cymwysterau Cymru;
- gallu dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys gweithgareddau gwaith maes,[3] yn ystod y 3 blynedd diwethaf.

---

[2] Mae rhestr gyfredol o'r holl gymwysterau JNC cydnabyddedig yng Nghymru a Lloegr ar wefan NYA www.nya.org.uk a gwefan ETS Cymru www.ets.wales

[3] Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ymarfer gwaith ieuenctid, goruchwylio ymarferwyr neu ddarparu hyfforddiant.

**Hefyd yng Nghymru, rhaid i hyfforddwyr fodloni'r canlynol:**

- meddu ar gymhwyster addysgu/cyflwyno dysgu cydnabyddedig a/neu brofiad o gyflwyno dysgu;
- wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg fel tiwtor, hyfforddwr neu ddarlithydd yn y Sector Addysg Bellach lle bo hynny'n berthnasol.

Rhaid i **aseswyr**:

- ar gyfer asesu unedau Theori Gwaith Ieuenctid ac Ymarfer seiliedig ar Waith, rhaid meddu ar gymhwyster proffesiynol cydnabyddedig ym maes Gwaith Ieuenctid (JNC) gyda thair blynedd o brofiad ymarfer o leiaf, gyda phrofiad gwaith maes yng nghyd-destun gwaith ieuenctid, gwaith cymunedol, addysg gymunedol neu'r sector cymunedol gwirfoddol, a phrofiad perthnasol ar draws y sector ieuenctid a chymunedol mewn swyddogaeth a gydnabuwyd gan JNC/ETS yn ystod y 3 blynedd diwethaf[4];
- ar gyfer asesu cymhwyster heb gynnwys asesu unedau *Theori Gwaith Ieuenctid ac Ymarfer seiliedig ar Waith*, rhaid 'meddu ar gymhwyster Lefel 3 mewn Gweithiwr Cymorth Ieuenctid (JNC) gyda thair blynedd o brofiad ymarfer o leiaf, gyda phrofiad gwaith maes yng nghyd-destun gwaith ieuenctid, gwaith cymunedol, addysg gymunedol neu'r sector cymunedol gwirfoddol a/neu brofiad perthnasol ehangach ar draws y sector ieuenctid a chymunedol mewn swyddogaeth a gydnabuwyd gan JNC/ETS yn ystod y 3 blynedd diwethaf;
- bod â dealltwriaeth gadarn o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid;
- bod â dealltwriaeth gadarn o'r gofynion ar gyfer asesu o fewn Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau(Ofqual)/Cymwysterau Cymru;
- meddu ar gymhwyster cydnabyddedig ar gyfer aseswyr** ^^ (sef, D32/33, A1), neu weithio tuag at hynny;
- bod yn ymroddedig i hyfforddiant a datblygiad pellach, a gallu dangos tystiolaeth o hynny.

Rhaid i'r rheini sy'n **sicrhau ansawdd yn fewnol**:

- meddu ar gymhwyster JNC mewn Gwaith Ieuenctid Proffesiynol gyda thair blynedd o brofiad ymarfer, gyda phrofiad gwaith maes yng nghyd-destun gwaith ieuenctid, gwaith cymunedol, addysg gymunedol neu'r sector cymunedol gwirfoddol a/neu brofiad perthnasol ehangach ar draws y sector ieuenctid a chymunedol mewn swyddogaeth a gydnabuwyd gan JNC/ETS yn ystod y 3 blynedd diwethaf;
- profiad diweddar (o fewn y tair blynedd diwethaf) o sicrhau ansawdd mewnol, gorau oll os yw ym maes galwedigaethol sy'n berthnasol i waith ieuenctid;
- bod â dealltwriaeth gadarn o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid;
- bod â dealltwriaeth gadarn o'r gofynion ar gyfer asesu yn Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau(Ofqual)/Cymwysterau Cymru;
- meddu ar gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol (sef, D.34, V1) neu fod yn gweithio tuag ato;
- bod yn ymroddedig i hyfforddiant a datblygiad pellach, a gallu dangos tystiolaeth o hynny.

Rhaid i'r rheini sy'n **sicrhau ansawdd yn allanol** fodloni'r canlynol:

[4] Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ymarfer gwaith ieuenctid, goruchwylio ymarferwyr neu ddarparu hyfforddiant.

- meddu ar gymhwyster gwaith ieuenctid proffesiynol JNC neu gymhwyster proffesiynol sy’n cyd-fynd (un sy’n gysylltiedig â phlant, pobl ifanc a theuluoedd, addysgu neu waith cymdeithasol).
- cael dealltwriaeth gadarn o’r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid.
- cael profiad diweddar o sicrhau ansawdd allanol.
- meddu ar gymhwyster Sicrhau Ansawdd Allanol neu fod yn gweithio tuag ato.
- bod â dealltwriaeth gadarn o’r gofynion ar gyfer asesu yn Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau(Ofqual)/Cymwysterau Cymru.

**Crynodeb o ofynion sylfaenol y cymhwyster:**

<table>
<tr><th colspan="4">Gofynion Cymwysterau <u>Sylfaenol</u> ar gyfer Cymwysterau Ymarfer Gwaith Ieuenctid JNC</th></tr>
<tr><th>Unedau</th><th>Hyfforddwyr/ aseswyr</th><th>Sicrwydd Ansawdd Mewnol</th><th>Sicrhau Ansawdd Allanol</th></tr>
<tr><td>Theori Gwaith Ieuenctid</td><td>Gweithiwr Ieuenctid Proffesiynol JNC *</td><td rowspan="5">Gweithiwr Ieuenctid Proffesiynol JNC*</td><td rowspan="5">Gweithiwr Ieuenctid Proffesiynol JNC **</td></tr>
<tr><td>Ymarfer Seiliedig ar Waith</td><td>Gweithiwr Ieuenctid Proffesiynol JNC *</td></tr>
<tr><td>Unedau gorfodol L2</td><td>Gweithiwr Cymorth Ieuenctid Lefel 3 JNC</td></tr>
<tr><td>Unedau gorfodol L3</td><td>Gweithiwr Cymorth Ieuenctid Lefel 3 JNC</td></tr>
<tr><td>Unedau dewisol L2 a 3</td><td>Cymhwyster/arbenigedd perthnasol ***</td></tr>
<tr><td colspan="4">* Gweithiwr Ieuenctid Proffesiynol JNC – yn meddu ar ‘gymhwyster gweithiwr ieuenctid proffesiynol’ sef, rhywun gyda chymhwyster ar y rhestrau o gymwysterau cydnabyddedig a ddelir gan yr NYA, ETS Cymru, CLD Standards Council Scotland neu NSETS (Iwerddon/Gogledd Iwerddon). Er enghraifft, gallai hyn fod yn Radd Sylfaen/Diploma L5 (os ydych wedi cofrestru cyn 2010) neu L6 BA(Anrh) neu gymhwyster L7 PgDip/Meistr.<br><br>** Gweithiwr Ieuenctid Proffesiynol - yn meddu ar gymhwyster gwaith ieuenctid proffesiynol cydnabyddedig - neu gymhwyster tebyg mewn maes sy’n cyd-fynd (un sy’n gysylltiedig â phlant, pobl ifanc a theuluoedd, addysgu neu waith cymdeithasol).<br><br>*** Mae rhai unedau dewisol yn gysylltiedig â gwaith ieuenctid, felly mae angen gweithiwr ieuenctid cymwysedig a gall eraill fod yn unedau arbenigol (ee camddefnyddio sylweddau/iechyd rhywiol) lle byddai gan arbenigwr yn y maes penodol hwnnw well cymwysterau.</td></tr>
</table>

## 6. Adolygu a gwerthuso’r strategaeth

Bydd ETS Cymru ac ETS Lloegr a’r AO/B yn monitro effeithiolrwydd y Strategaeth Asesu’n rheolaidd.  Bydd yn cael ei adolygu’n flynyddol a’i ddiwygio, lle bo angen.

Sefydlir mecanweithiau drwy gyfarfodydd blynyddol AO/Bs gydag ETS Cymru ac ETS Lloegr i alluogi AO/Bs i roi adborth a fydd yn helpu i adolygu a gwerthuso’r Strategaeth Asesu. Defnyddir yr adborth hefyd i adolygu arferion asesu a sicrhau ansawdd, nodi a lledaenu arferion da a llywio gwelliannau i’r strategaeth ac i ddiwygio’r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a chymwysterau yn y dyfodol.

## 7. Y Broses Bontio

Mae ETS Cymru ac ETS Lloegr yn cydnabod yr angen i AO/Bs a chanolfannau dyfarnu adolygu a chynllunio ar gyfer y newidiadau uchod wrth gyflwyno’r cymwysterau Ymarfer

Gwaith Ieuenctid.  Disgwylir erbyn mis Medi 2017 y bydd yr holl hyfforddwyr ac aseswyr yn gweithio yn unol â'r safonau a amlinellir uchod.

Mae ETS Lloegr wedi cytuno i gydnabod cymwysterau a phrofiad nifer fach o staff y sector ieuenctid sydd wedi bod yn ymwneud â darparu hyfforddiant gwaith ieuenctid cyn sefydlu'r meini prawf uchod ar ôl cwblhau proses cydnabod unigol yn erbyn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid. Er nad yw'r unigolion hyn o bosibl yn bodloni meini prawf y JNC uchod, bydd eu gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel nad ydyn nhw'n eu rhoi dan anfantais yn annheg. Bydd y gydnabyddiaeth hon yn 'bersonol i'r deiliad' ac ni fydd yn rhoi statws cymwysedig JNC.

Mae ETS Lloegr yn mynnu bod yr holl aseswyr, swyddogion sicrhau ansawdd allanol a swyddogion sicrhau ansawdd mewnol wedi ennill y cymwysterau perthnasol fel y nodir uchod o fewn 24 mis i gael eu cymeradwyo i gyflwyno'r cymwysterau.

Mae ETS Cymru ac ETS Lloegr yn mynnu bod AO/Bs yn darparu, ar gais, wybodaeth sy'n ymwneud â chymhwysedd y staff sy'n ymwneud â chyflwyno, asesu a sicrhau ansawdd y cymwysterau ymarfer gwaith ieuenctid yn fewnol ac yn allanol.  Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- cymwysterau gwaith ieuenctid
- profiad gwaith ieuenctid
- profiad o fod yn asesydd, sicrhau ansawdd yn fewnol ac yn allanol
- cymwysterau asesydd, sicrhau ansawdd mewnol ac allanol
- cymwysterau hyfforddi
- profiad hyfforddi.

Rhaid i gopïau o dystysgrifau cymwysterau fod ar gael ar gais.

****** Bydd disgwyl i unigolion nad ydyn nhw'n meddu ar gymhwyster cydnabyddedig gael un o fewn 24 mis i'w cymeradwyo.

**^^** I unigolion nad ydyn nhw'n meddu ar gymhwyster cydnabyddedig, rhaid i aelod cymwysedig o staff gydlofnodi eu penderfyniadau asesu/dilysu.